

Gwahoddiadau i fynegi sylwadau ar Geisiadau i Ryddhau Organeddau a Addaswyd yn Enetig

CAIS AM GYDSYNIAD RHAN B GAN PROKARIUM LTD. I RYDDHAU BRECHLYN A ADDASWYD YN ENETIG AC A RODDIR DRWY'R GEG AR GYFER Y DWYMYN ENTERIG CYFEIRNOD Y CAIS: 19/DR/001/W

Mae Prokarium Ltd. wedi ymgeisio i Lywodraeth Cymru am gydsyniad i ryddhau yn fwriadol organeddau a addaswyd yn enetig at ddibenion ymchwil a datblygu. Mae Rhannau A a B o'r cais wedi'u hatodi ac maent hefyd wedi'u rhoi ar y Gofrestr Gyhoeddus.

Rydym yn gwahodd unrhyw un i fynegi sylwadau sy'n ymwneud ag unrhyw risg o niwed i'r amgylchedd yn sgil rhyddhau'r organeddau hyn. Dylai'r holl sylwadau ddod i law **erbyn 12 Medi 2019** a gellir eu hanfon:

- naill ai'n ysgrifenedig at Y Gangen Iechyd Planhigion a Diogelu'r Amgylchedd, Rhodfa Padarn, Aberystwyth, SY23 3UR, gan nodi cyfeirnod y cais; neu
- drwy'r e-bost i plant.health@gov.wales

Bydd copiâu papur o'r sylwadau ar gael i'w gweld oni bai bod y sawl a'u hysgrifennodd yn nodi fel arall. Os hoffech i'ch sylwadau barhau i fod yn gyfrinachol, nodwch hynny'n glir pan fyddwch yn eu cyflwyno. Bydd Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod y sylwadau wedi dod i law ond ni fydd ymatebion i sylwadau unigol yn cael eu rhoi.

Canllawiau

O dan Reoliad 21(b) o Reoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Cymru) 2002, ar ôl cael cais Rhan B, rhaid i Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wahodd y cyhoedd ac eraill i fynegi sylwadau ar unrhyw risgiau i'r amgylchedd pe bai'r organeddau hyn yn cael eu rhyddhau drwy osod cais ar y Gofrestr Gyhoeddus. Mae'r gwahoddiad i fynegi sylwadau hefyd i'w weld ar y wefan hon.

Mae'r cyfnod ar gyfer mynegi sylwadau wedi'i bennu yn isafswm o 48 o ddiwrnodau (mae'r cyfnod o 48 o ddiwrnodau yn deillio o'r ffaith bod yn rhaid gosod manylion ceisiadau Rhan B ar y gofrestr gyhoeddus o fewn 12 diwrnod

o'u cael (Rheoliadau 12, 35(3) a 36(2)) ac ni chaiff y cyfnod ymgynghori ddod i ben llai na 60 o ddiwrnodau o'r dyddiad y daeth y cais i law (Rheoliad 21(b)).

Nid oes modd gwrthod neu gymeradwyo cydsyniad cyn bod y cyfnod o 60 o ddiwrnodau, sy'n dechrau ar y diwrnod y daeth y cais i law, wedi mynd heibio, ond y diwrnod hwyraf ar gyfer gwneud penderfyniad yw cyn diwedd y cyfnod o 90 o ddiwrnodau ar ôl cael y cais (ac eithrio unrhyw amser lle y mae angen aros am wybodaeth ychwanegol; neu unrhyw amser pan fo'r Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried y sylwadau a gyflwynwyd cyn belled nad yw hynny'n fwy na 30 o ddiwrnodau). Am y rheswm hwnnw, efallai na fydd unrhyw sylwadau a ddaw i law ar ôl y dyddiad uchod yn cyrraedd mewn pryd i'w hystyried cyn bod penderfyniad yn cael ei wneud ar y cais.